

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 18FED O FAI 2015 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 P.M.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stanley Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Barri Evans, Elfed Williams, Iona Edwards-Jones, Iwan Jones a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Gwennan Hughes, Jill Evans, Falmai Evans, Hywel Davies a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Ebrill 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

- A. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi trefnu tocio'r glaswellt y "Llwybr Cyhoeddus" wrth Gapel Saron.
- B. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych bod rhaid perchennog tir amaeth gorfod cael caniatâd cynllunio i gael ymadael o wrychoedd.
- C. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych bod y cais cynllunio yn Fron Ystrad, Llanrhaeadr wedi ei thynnu yn ôl gan yr ymgeisydd.
- D. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanrhaeadr.
- E. Penodwyd is-bwyllgor aelodau Phrion a Saron y Cyngor i drafod manylion lloches bws newydd yn Saron ac i adroddi yn ôl yn y cyfarfod nesaf y Cyngor.

4. CYLLID.

- A. Datganiad Banc - £17,085.00.
- B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r 2015/16 precept y Cyngor - £3,976.00.
- C. Taliadau:-
  - 1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2015 - £360.00.
  - 2. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2015 - £90.00.
  - 3. Harold Smith - Archwiliwr Mewnol am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2015 - £144.00.
  - 4. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor - £20.00.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

- A. Fferm Wynt yn cynnwys 8 Tyrbin Wynt ar dir gyferbyn a Llyn Bran, Bylchau - Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais gyda'r sylwadau trwy law'r Cynghorydd Iona Edwards-Jones.
- B. Tyrbin Wynt ar dir yng Nghefn Yfed, Cyffylliog - Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais gyda'r sylwadau trwy law'r Cynghorydd Iona Edwards-Jones.
- C. Orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer gorchymyn cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cy, rug an Scottish Power - Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais gyda'r sylwadau trwy law'r Cynghorydd Iona Edwards-Jones.

6. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Ffordd heibio Bryn Mulan, Prion eisiau ei thrwsio.

2. Wal rhwng yr King's Head ar Lodge yn Llanrhaeadr eisiau ei thrwsio.

B. Penderfynwyd yr aelodau i ofyn i gontractwyr lleol am amcan bris i drwsio'r wal y Gof Golofn yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 29ain o Fehefin 2015 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.